# Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc Ceredigion

## Cwestiynau Cyffredin / Nodyn Canllawiau

Mae'r Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc yn gerdyn adnabod sy'n cynnwys llun, a gyhoeddir gan Gyngor Sir Ceredigion i Ofalwyr Ifanc sy'n 18 oed ac iau, sydd wedi cofrestru gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Ifanc Cyngor Sir Ceredigion ac sy'n gofyn am gael Cerdyn Gofalwr Ifanc.

Mae'r Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc yn cadarnhau bod yr unigolyn a ddangosir ar y cerdyn yn Ofalwr Ifanc a bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu.

Mae'r Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc ar gael yn rhad ac am ddim. Mae'r Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc yn ddilys am 2 flynedd.

Rhoddir Cerdyn Gofalwyr i Oedolion 18 oed a throsodd sy'n gofyn am gerdyn.

## Ar gyfer pwy y mae'r Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc?

Mae'r Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc ar gyfer Gofalwr Ifanc. Mae Gofalwr Ifanc yn rhywun sy'n helpu gofalu am ffrind neu aelod o'r teulu, nad ydynt yn gallu ymdopi ar eu pen eu hunain oherwydd bod ganddynt anabledd, salwch corfforol neu feddyliol neu eu bod yn cael eu heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau neu alcohol.

Gallwch wneud cais am y Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc os ydych chi neu'r unigolyn yr ydych yn gofalu amdanynt yn byw yng Ngheredigion.

## Beth yw diben y Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc?

Mae'r Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc yn dangos bod deiliad y cerdyn yn Ofalwr Ifanc. Gallwch ddefnyddio'r cerdyn i ddangos bod gennych chi gyfrifoldebau gofalu.

## Gwybodaeth I Ofalwyr Ifanc

Gallwch wneud cais am Gerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc trwy lenwi'r ffurflen gais ar-lein:

[www.ceredigion.gov.uk/cerdyngofalwrifanc](http://www.ceredigion.gov.uk/cerdyngofalwrifanc)

Bydd angen i chi lanlwytho llun o'ch hun i'w ddefnyddio ar y cerdyn. Darllenwch y canllawiau lluniau i gael gwybod mwy.

Os ydych chi dan 14 oed, bydd angen i ni gysylltu â'ch rhiant/ gwarcheidwad i gael eu caniatâd nhw i chi ymuno â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Ifanc a gwneud cais am Gerdyn Gofalwr Ifanc.

Efallai y bydd angen i ni gysylltu ag oedolyn am eich cais.  Gallai'r oedolyn hwn fod yn rhiant/ gwarcheidwad i chi neu'n oedolyn yr ydych chi'n eu hadnabod o'r ysgol, coleg, Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc neu wasanaeth arall neu o glwb neu grŵp yr ydych yn rhan ohono.  Sicrhewch bod gennych eu henw, eu rhif ffôn a'u cyfeiriad e-bost yn barod cyn i chi ddechrau llenwi'r ffurflen gais.

## Gwybodaeth i rieni/ gwarcheidwaid

Os ydych yn rhiant/ gwarcheidwaid, gallwch wneud cais am Gerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc ar gyfer y Gofalwr Ifanc trwy lenwi'r ffurflen gais ar-lein:

www.ceredigion.gov.uk/cerdyngofalwrifanc

## Gwybodaeth i bobl sy'n cynorthwyo neu sy'n gweithio gyda'r Gofalwr Ifanc

Os ydych chi'n rhywun sy'n cynorthwyo neu sy'n gweithio gyda'r Gofalwr Ifanc, fe'ch ystyrir yn 'gyfeiriwr yr ymddiriedir ynddynt', felly gallwch wneud cais am Gerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc ar ran Gofalwr Ifanc trwy lenwi'r ffurflen gais ar-lein:

www.ceredigion.gov.uk/cerdyngofalwrifanc

Mae cyfeirwyr yr ymddiriedir ynddynt yn bobl sy'n adnabod y Gofalwr Ifanc, mewn ffordd broffesiynol fel arfer, sy'n gallu cadarnhau eu bod yn gymwys i wneud cais am Gerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc.  Isod, rhestrir enghreifftiau o'r meysydd y gallai cyfeirwyr yr ymddiriedir ynddynt fod yn gweithio ynddynt.

- Gwasanaeth Ysgol
- Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc
- Gwasanaeth Gofalwyr sy'n Oedolion
- Gofal Cymdeithasol neu wasanaethau eraill Cyngor Sir Ceredigion
- GIG/ Bwrdd Iechyd
- Sefydliad trydydd sector
- Gwasanaeth ieuenctid/ gwaith ieuenctid

Os yw'r Gofalwr Ifanc dan 14 oed, rhaid bod y cyfeiriwr yr ymddiriedir ynddynt yn sicrhau caniatâd rhiant/gwarcheidwad y Gofalwr Ifanc i gyflwyno'r cais.

Bydd angen i chi lanlwytho llun o'r Gofalwr Ifanc i'w ddefnyddio ar y cerdyn. Darllenwch y canllawiau lluniau i gael gwybod mwy.

## Sut y bydd eich Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc yn edrych

Gallwch ddewis y ddelwedd sy’n cynnig cefndir i’r cerdyn o’r 6 ddelwedd a ddangosir yma neu gallwch anfon eich delwedd eich hun i’w defnyddio ar y cerdyn.

Cerdyn 1:




Cerdyn 2:




Cerdyn 3:




Cerdyn 4:



Cerdyn 5:




Cerdyn 6:




## Canllawiau ar gyfer ffotograffau

A fyddech cystal â lanlwytho llun (ffoto o'r pen a'r ysgwyddau) o ansawdd da ohonoch eich hun i'w ddefnyddio ar y cerdyn. Gallwch ofyn i aelod o'r teulu neu ffrind i gymryd llun ar ffôn neu ddyfais arall. Ni ddylai maint eich llun fod dros 2MB os ydych yn ei lanlwytho ar-lein.

Os nad ydych yn gallu lanlwytho eich llun, anfonwch lun mewn neges e-bost at unedgofalwyr@ceredigion.gov.uk neu ffoniwch Cyngor Sir Ceredigion ar 01970 633564 i gael help wrth gyflwyno llun.

Dylai'r llun:

- fod yn llun lliw a dynnwyd yn ddiweddar
- bod o'r Gofalwr Ifanc yn unig (dim pobl arall nac anifeiliaid anwes)
- bod wedi cael ei gymryd yn erbyn cefndir golau
- dangos y Gofalwr Ifanc yn edrych ymlaen gyda'u pen a'u hysgwyddau yn y llun
- dangos wyneb llawn y Gofalwr Ifanc
- dangos y Gofalwr Ifanc yng nghanol y llun
- os yw'r Gofalwr Ifanc yn gwisgo sbectol, dylai ddangos eu llygaid yn glir, gan osgoi golau ar y lensys

Dylech fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau canlynol.

Ni ddylai'r llun:

- ddangos y Gofalwr Ifanc yn gwisgo het neu orchudd pen oni bai bod hynny am resymau meddygol neu grefyddol
- dangos y Gofalwr Ifanc gyda llygaid coch ffotograffig
- dangos y Gofalwr Ifanc yn y pellter neu gyda phobl arall yn y golwg
- bod o ddelweddau amhriodol neu anweddus
- dangos y Gofalwr Ifanc gyda'u hymddangosiad wedi newid neu gyda hidlydd
- bod yn ddelwedd o rywun arall neu'n ddelweddau a warchodir gan hawlfraint

### Fformat y ffeil

Dylai'r ddelwedd fod yn ffeil .jpg neu jpeg a dylai fod yn llai nag 2MB.

## Sut allaf i gael Cerdyn Gofalwr Ifanc?

Gallwch wneud cais am Gerdyn Gofalwr Ifanc trwy lenwi'r ffurflen gais ar-lein ar wefan Cyngor Sir Ceredigion. Bydd angen i chi lanlwytho llun o'ch hun i'w ddefnyddio ar y cerdyn. Ymgeisiwch am Gerdyn Gofalwr Ifanc yma: www.ceredigion.gov.uk/cerdyngofalwrifanc

## Pwy ddylwn i gysylltu â nhw os byddaf yn ei chael hi'n anodd, neu os bydd angen help arnaf i wneud cais am Gerdyn Gofalwr Ifanc?

Os nad ydych chi'n gallu troi at y rhyngrwyd er mwyn gwneud cais ar-lein am y Cerdyn Gofalwr Ifanc neu os bydd angen help arnoch wrth wneud cais am y Cerdyn Gofalwr Ifanc, gallwch ffonio Cyngor Sir Ceredigion ar **01970 633564** gan ofyn am help. Gallwch anfon e-bost at yr Uned Gofalwyr hefyd, unedgofalwyr@ceredigion.gov.uk er mwyn gofyn am help. Wrth anfon neges e-bost, nodwch eich rhif ffôn hefyd er mwyn i ni allu datrys y mater yn gyflym.

## Buddion a Gostyngiadau y Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc

Mae'r Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc yn rhywbeth newydd i Geredigion ac rydym yn gweithio gyda busnesau lleol a sefydliadau eraill er mwyn pennu'r buddion a'r gostyngiadau y bydd y Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc yn eu cynnig i chi.

Mae'r buddion a'r gostyngiadau a restrir isod ar gael i ddeiliaid y Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc ar hyn o bryd. Caiff y wybodaeth hon ei diweddaru pan fydd buddion neu ostyngiadau newydd ar gael.

### Prawf o rôl gofalu wrth ofyn am frechiadau am ddim rhag y ffliw

Mae Gofalwyr Ifanc yn gymwys i gael brechiad am ddim rhag y ffliw. Gellir defnyddio'r Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc fel prawf o'ch rôl gofalu er mwyn

hawlio'ch brechiadau am ddim rhag y ffliw. Gallwch ofyn i'ch meddygfa am eich brechiad am ddim rhag y ffliw neu eich fferyllfa leol (nid yw pob fferyllfa yn cynnig brechiadau rhag y ffliw).

## Amodau a Thelerau

Cyn gwneud cais am Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc, darllenwch yr amodau a thelerau a'r canllawiau ynghylch lluniau isod.

- Rhoddir y Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc i Ofalwyr di-dâl sy'n 18 oed neu'n iau ac sy'n byw yng Ngheredigion, neu sy'n helpu i ofalu am rywun sy'n byw yng Ngheredigion.

- Mae'r Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc ar gael i aelodau'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Ifanc.

- Os nad yw'r cais am gerdyn Gofalwr Ifanc wedi cael ei gyflwyno gan gyfeiriwr yr ymddiriedir ynddynt, efallai y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn i'r ymgeisydd /deiliad cerdyn Gofalwr Ifanc (pan fo hynny'n briodol) neu riant/gwarcheidwad i ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth o rôl gofalu y Gofalwr Ifanc, megis llythyr gan feddyg, ysgol neu dystiolaeth ategol briodol arall.

- Mae'r Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc yn ddilys am 2 flynedd o'r dyddiad pan gaiff ei gyhoeddi. Y rhiant/ gwarcheidwad neu'r Gofalwr Ifanc sy'n gyfrifol am wneud cais i Uned Gofalwyr Cyngor Sir Ceredigion i adnewyddu'r cerdyn. Gall cyfeiriwr yr ymddiriedir ynddynt wneud cais i Gyngor Sir Ceredigion hefyd i adnewyddu'r cerdyn ar ran y Gofalwr Ifanc.

- Bydd defnyddio'r cerdyn yn rhwym i'r amodau a thelerau hyn.

- Os bydd rôl gofalu Gofalwr Ifanc wedi dod i ben, rhaid i'r rhiant/ gwarcheidwad neu'r Gofalwr Ifanc hysbysu Cyngor Sir Ceredigion o'r newid. Gall y Gofalwr Ifanc barhau i ddefnyddio'r cerdyn am 3 mis pellach, yna bydd yn rhaid dychwelyd y cerdyn i Gyngor Sir Ceredigion.

- Mae Cardiau Gofalwr Ifanc yn cynnwys cofnod adnabod ffotograffig, cyfeirnod a dyddiad dod i ben. Defnyddir y Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc at ddibenion adnabod a dylai gael ei ddefnyddio gan ddeiliad y cerdyn ar y cyd ag unrhyw ostyngiad neu wasanaeth a gynigir yn unig.

- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadw’r hawl i newid ymddangosiad ac amodau’r Cerdyn Gofalwr Ifanc, neu i derfynu cynllun y Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc ar unrhyw adeg.

- Os bydd y Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc yn mynd ar goll, ffoniwch Cyngor Sir Ceredigion ar 01970 633564 a bydd modd rhoi cerdyn newydd. Efallai y codir tâl bach am gyhoeddi cerdyn newydd.

- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadw’r hawl i newid amodau a thelerau’r cytundeb hwn ar unrhyw adeg. Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn eich hysbysu yn ysgrifenedig o leiaf 30 diwrnod cyn gwneud unrhyw newidiadau o’r fath, gan nodi manylion y newidiadau a wnaethpwyd.

## A yw'r Cerdyn Gofalwr Ifanc ar gael am ddim?

Ydy, mae'r Cerdyn Gofalwr Ifanc ar gael yn rhad ac am ddim.

## Faint o amser y bydd fy Ngherdyn Gofalwr yn ei gymryd cyn fy nghyrraedd?

Byddwn yn anfon eich cerdyn atoch yn y post, ac fe ddylai gyrraedd cyn pen 21 diwrnod gwaith.

## Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch

Gallwch gysylltu ag Uned Gofalwyr Cyngor Sir Ceredigion gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir isod am ragor o wybodaeth:

**Uned Gofalwyr**
Ffôn: 01970 633564
Ebost: unedgofalwyr@ceredigion.gov.uk

Post: Uned Gofalwyr
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UE